EDC-06-00 (cofnodion drafft)

**Pwyllgor Datblygu Economaidd**

**Dyddiad:** 27 Mawrth 2000

**Amser:** 12.30pm – 3pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgor 1, Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| **Aelodau** | (Etholaeth) |
| Val Feld (Cadeirydd) | Dwyrain Abertawe |
| Rhodri Morgan (Ysgrifennydd y Cynulliad) | Gorllewin Caerdydd |
| Alun Cairns | De Orllewin Cymru |
| Ron Davies | Caerffili |
| Michael German | De Ddwyrain Cymru |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Brian Gibbons | Aberafan (yn lle Ann Jones) |
| Helen Mary Jones | Llanelli |
| Phil Williams | De Ddwyrain Cymru |
| **Swyddogion** | (Adran) |
| Derek Jones | Uwch Gyfarwyddwr Materion Economaidd |
| Michael Cochlin | Cyfarwyddwr y Grp Materion Economaidd |
| Chris Johnes | Adran Materion Ewropeaidd |
| **Cyfranwyr Allanol (Cynrychiolwyr y Bartneriaeth)** | |

| | |
|---|---|
| Neville Davies | Awdurdodau Lleol |
| Sian Swann | Cyfle Cyfartal |
| Mike Theodolou | Siambrau Masnach |
| Teresa Holdsworth | Addysg Bellach ac Uwch a Chynghorau Menter a Hyfforddiant |
| Graham Benfield | Sector Gwirfoddol |
| **Ysgrifenyddiaeth** | |
| Helen Usher | Clerc |
| Jo Trott | Dirprwy Glerc |

**Eitem1: Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac atgoffodd aelodau a chyfranwyr fod croeso iddynt siarad yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Cyflwynodd aelodau'r bartneriaeth gan nodi'r sectorau yr oedd pob un yn eu cynrychioli.

2. Gofynnodd Phil Williams am ganiatâd i ddosbarthu taenlen a roddai ddadansoddiad o'r ffigyrau ariannu yn yr SPD a phapurau eraill. Dywedodd y Cadeirydd nad oedd yn briodol yn ei barn hi i aelodau ddosbarthu papurau mewn neu'n ystod cyfarfodydd Pwyllgor. Dylai papurau a ysgrifennwyd gan aelodau gael eu cyflwyno drwy'r Cadeirydd yn y ffordd arferol.

**Eitem 2: Amcan Diwygiedig 1 SPD**

2.1 Y Cadeirydd a gyflwynodd yr eitem hon gan achub y cyfle i ddiolch i'r holl gyfranwyr am roi cymaint o'u hamser a'u hegni er mwyn llunio'r ddogfen ddiwygiedig. Yna gwahoddodd Michael Cochlin i gyflwyno'r papurau ac yn benodol i esbonio'r amserlen ar gyfer cymeradwyo'r SPD a nodi'r prif faterion i'r Pwyllgor eu trafod.

2.2 Cododd Michael Cochlin y pwyntiau canlynol yn ei gyflwyniad:Rhoddai'r drafodaeth hon gyfle i'r Pwyllgor ddylanwadu ar yr SPD cyn ei chyflwyno i'w hystyried mewn cyfarfod allweddol rhwng y bartneriaeth a'r Comisiwn Ewropeaidd ar ddydd Iau 30 Mawrth. Byddai'r Pwyllgor Amaeth a Datblygiad Gwledig hefyd yn ystyried y ddogfen ar ddydd Mercher 29 Mawrth. Y gobaith oedd datrys unrhyw faterion a ddaliai heb eu trin yn ystod y cyfarfod â'r Comisiwn ddydd Iau. Rhoddid adroddiad ar benderfyniadau'r cyfarfod hwnnw i'r Cabinet ac wedyn i'r PDE ar 12 Ebrill cyn y ddadl Lawn y prynhawn hwnnw. Y cam nesaf oedd cyflwyno'r SPD ym Mrwsel ar gyfer ei hystyried gan y Pwyllgorau Ewropeaidd a'i hanfon wedyn i'w hardystio'n ffurfiol gan y Comisiynydd. Roedd disgwyl i'r broses derfynol hon ddod i ben ddechrau Mehefin. Serch hynny, dylid sylweddoli er nad oedd yn debyg y cytunid yn ffurfiol â'r SPD cyn Mehefin, byddai'r SPD a gyflwynwyd ym Mrwsel yn Ebrill yn ddogfen sefydledig na fyddai

gofyn ei newid braidd o gwbl. Gan hynny, roedd modd paratoi cryn dipyn cyn cymeradwyo'r ddogfen ac nid ymwrthodwyd yn llwyr â'r posibilrwydd o ymdrin â chynigion drwy'r dulliau cyflymaf.

- Am ei bod yn well gan y Comisiwn fod testun cyffredin ar gyfer rhai pynciau megis gweithredu, roedd y pynciau hyn yn cael eu trafod yr adeg honno ar lefel Brydeinig. Mater o bwys arbennig i Gymru ac i rannau eraill o'r DU oedd yr awgrym na fyddai hawl i gyrff atebol gynnig am gael nawdd o gynlluniau gweithredu, er y byddai hynny'n agored i'w egluro.

- Gofynnwyd i'r Pwyllgor fwrw golwg yn arbennig ar y blaenoriaethau a'r mesurau a gynigiwyd a'r arian a ddyrannwyd iddynt. Pwysleisiwyd er y byddai'r Pwyllgor Monitro'n rhydd i symud arian rhwng gwahanol fesurau mater anos o lawer fyddai symud arian rhwng blaenoriaethau ar ôl eu cytuno gan y Comisiwn.

2.3 Cytunwyd i gynnal y drafodaeth fesul pennod.

**Pennod 1**

- Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cynulliad bod y ffigwr o £1.853bn ar gyfer cymorth o Ewrop yn gywir. Roedd y ffigyrau a oedd i'w gweld mewn mannau eraill fel arfer wedi bod drwy ddwylo datchwyddwr. Roedd teimlad y byddai cysondeb neu o leiaf esboniadau ar amrywiadau'n ddefnyddiol.

**Pennod 2**

- Mewn ymateb i alwad am fonitro ar lefel is-ranbarthol (tudalennau 8 a 9), cadarnhaodd swyddogion y byddai hynny'n rhan o'r drefn yn y dyfodol.

- Roedd yr ardal ddaearyddol a ddisgrifiwyd fel y "Cymoedd canolog" yn cynnwys Rhondda Cynon Taf a Merthyr.

- Disgrifiwyd Abertawe fel rhan o'r Cymoedd yn hytrach na Gorllewin Cymru am ddau reswm: ei lleoliad yn rhaglen De Cymru Diwydiannol flaenorol y GE; a dull gweithredu'r partneriaethau rhanbarthol. Nid yw o bwys ymarferol pa un o'r ddau gategori hwn a ddewisir.

- Wrth drafod data enillion (tudalen 20), cytunodd Ysgrifennydd y Cynulliad i archwilio'r posibilrwydd o rannu'r data ar sail rhyw. Rhoddid rhagor o ystyriaeth hefyd i'r posibilrwydd o ddefnyddio ffigwr ar wahân i ffigwr yr FTE ar gyfer lefel cyflogau pobl mewn swyddi rhan amser am fod tuedd i'r anghyfartaledd rhwng cyflogau dynion a menywod gael ei danddatgan yn aml. **[Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad]**

- Nodwyd bod ffigyrau Cymru ar gyfer cyfranogi'n weddol uchel o'u cymharu ag ambell i ran

arall o Ewrop. Eto i gyd, ffigyrau'r DU oedd y ffon fesur yng nghyswllt nawdd Amcan 1, ac o'u cymharu â'r rheiny roedd ffigyrau Cymru'n isel iawn. Nodwyd hefyd y byddai'n rhaid i Gymru leihau lefelau diffyg gweithgarwch yn sylweddol os oedd i gyrraedd y targedau a osodwyd ar gyfer Cynnyrch Mewnwladol Crynswth.

- Cytunwyd y dylai'r tabl ym mharagraff 2.2.11 gynnwys cyfeiriad at Fwrdd Croeso Cymru.
**[Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad]**

**Pennod 4**

- Beirniadwyd y dull o gyflwyno themâu sy'n berthnasol i fwy nag un pwnc megis cyfle cyfartal, datblygu cynaliadwy a chymdeithas gynhwysol. Am i'r Cynulliad bwysleisio pwysigrwydd y rhain, roedd teimlad y dylai fod lle amlycach iddynt yn yr SPD.

- Er gwaethaf croesawu'r diffiniad o ddatblygiad cynaliadwy a roddir gan Brundtland (tudalen 118), mynegwyd pryder ynglþn â'i droi'n weledigaeth arfaethedig. Yn ôl swyddogion roedd hynny i'w briodoli i raddau i'r pwyslais oedd yng nghanllawiau CE ar gynaliadwyedd amgylcheddol yn unig, a byddai'n anodd am nifer o resymau i dderbyn cynaliadwyedd cymdeithasol ac economaidd fel themâu trawsbynciol yn ogystal â blaenoriaethau a mesurau ar wahân. Teimlai aelodau y dylid ystyried ceisio tynnu sylw at gynaliadwyedd cymdeithasol ac economaidd a'r modd y gall Cymru gyfrannu at gynaliadwyedd amgylcheddol ym mhob rhan o'r byd. [Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad]

- Yng ngoleuni'r sefyllfa yngln â dyfodol Cynghorau Menter a Hyfforddiant, dylid newid y cyfeiriad ar dudalen 123 (adran 4.14) i gynnwys cyfeiriad at y Cyngor Addysg a Hyfforddiant i Gymru sydd i'w sefydlu yn eu lle. [Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad]

- Cadarnhawyd bod y cwestiwn ynghylch cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Gynefinoedd yn cael ei drin ac na fyddai'n oedi'r broses o gymeradwyo'r SPD.

**Pennod 6**

- Gellid adolygu dangosyddion a thargedau'n flynyddol ac yn ystod yr arolwg canol tymor.

- Ni ddywedodd y Comisiwn ei fod yn pryderu bod targedau arfaethedig yr SPD yn annilys nac yn anodd eu cyrraedd mewn unrhyw ffordd. Serch hynny, roeddynt i'w cynnwys yn y drafodaeth â'r Comisiwn ar y dydd Iau canlynol.

- Roedd angen i'r Pwyllgor ddychwelyd at dargedau'r Strategaeth Ddatblygu Economaidd Genedlaethol (ac o ganlyniad at y targedau pennawd) maes o law. Roedd yn bwysig trafod sut orau i ymdrin â thargedau ar gyfer diffyg gweithgarwch economaidd – gan gynnwys y rhaniad ar sail rhyw ac oedran ac ati.

- Roedd y GE yn daer dros sicrhau cysondeb targedau ar lefel Brydeinig a Chymreig. Yn unol â hyn cafodd pob mesur yn y Cynllun Datblygu Cefn Gwlad ei gynnwys hefyd yn yr SPD. Nid oedd y Comisiwn mor bryderus yngln â thargedu gofodol ac ymddangosai'n fodlon ymddiried y gwaith o'i ddatblygu i'r Pwyllgor Monitro.

**Penodau 7, 8 and 9 – Blaenoriaethau, Mesurau a Materion trawsbynciol**

- Newidiwyd y blaenoriaethau a'r mesurau yn yr SPD diwygiedig yn bennaf drwy gynnwys tri mesur newydd, a rhannu rhai eraill (e.e. rhannwyd safleoedd ac adeiladau bellach rhwng blaenoriaethau 1 a 6, ac ynni adnewyddadwy rhwng 2 a 6 ac ati). Gwnaethpwyd hyn yn y bôn un ai er mwyn cyflwyno mecanwaith rheoli cyllid (e.e. roedd y GE yn awyddus i gyfyngu ar brosiectau seilwaith) neu sicrhau trefn mor hyblyg â phosibl ar sail y ffaith na ellid symud arian rhwng blaenoriaethau (ond y gellid ei symud o fewn mesurau.

- Nodwyd y byddai llawer mwy o fanylion am y blaenoriaethau a'r mesur yn cael eu cynnwys yn ffurf y rhaglen.

- Mewn ymateb i gwestiwn am gymorth y wladwriaeth, gallu cystadleuol a'r rheswm am gamau cymorth busnes, dywedwyd bod agweddau ar gymorth y wladwriaeth yn cael eu trafod ar hyn o bryd â'r Comisiwn ar lefel Brydeinig. Byddai'r Pwyllgor yn ystyried gweithredu cymorth yn ei gyfarfod ar 12 Ebrill. Ni phenderfynwyd eto a ddylid cynnwys cymhorthion gweithredu yn yr SPD. Cadarnhawyd bod cryn dipyn o ymchwil yn cael ei chynnal eisoes gan y Cynulliad ac ar lefel Brydeinig er mwyn mesur maint y diffyg ariannu cydnabyddedig. Cytunodd Ysgrifennydd y Cynulliad i esbonio'r rhesymau dros gymryd camau cymorth busnes wrth y Pwyllgor (yn enwedig mewn perthynas â'r diffyg ariannu). **[Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad]**

- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd swyddogion fod menter gymunedol yn cael ei chynrychioli ar y Pwyllgor Monitro.

- Mynegwyd pryder y gallai pecynnau trawsbynciol olygu bod angen ceisiadau ar wahân ar gyfer pob llinyn. Cytunwyd bod angen cydbwyso'r awydd am lunio pecynnau eglur â'r perygl o greu gormod o fiwrocratiaeth. Bwriadai'r Pwyllgor drafod y mater hwn ymhellach mewn cyfarfod ar 29 Mawrth.

- Er na chyfeirir mor amlwg at dwristiaeth yn yr SPD diwygiedig roedd y rhan fwyaf o'r blaenoriaethau'n cynnwys cefnogaeth i dwristiaeth.

**Blaenoriaeth 1**

- Roedd Blaenoriaeth un yn agored i'r sectorau gwirfoddol, preifat a chyhoeddus.

- Mynegwyd peth pryder nad oedd blaenoriaeth 1 (sef ehangu a datblygu sylfaen o fusnesau bach a chanolig) yn nodi ardaloedd twf, yn enwedig wrth ystyried yr holl fanylion a roddir yng nghyswllt blaenoriaethau amaethyddol. Esboniodd y bartneriaeth na fuasai'n briodol i grp bach o gynrychiolwyr i bennu ardaloedd twf. Y farchnad ac ymchwil bellach yn hytrach ddylai bennu'r rhain. Hefyd am fod y rhaglen mor hir a'r farchnad yn gallu newid ar amrantiad, roedd yn bwysig bod mor hyblyg fyth â phosibl.

**Blaenoriaeth 3**

- Mewn ymateb i gwestiwn yn gofyn pam roedd teitl y flaenoriaeth hon yn cyfeirio at adfywiad economaidd cymunedol, esboniwyd mai un o ofynion y GE oedd hynny a seiliwyd ar yr angen am i gymorth dargedu'r economi cyn gallu denu nawdd strwythurol.

**Blaenoriaeth 4**

- Cytunwyd y dylid adfer dangosyddion cydraddoldeb, megis canran menywod yn y gweithlu, i'w lle yn yr adran sy'n trafod dangosyddion effaith (7.4.5 – tudalen 185). [Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad]

- Roedd peth trafod yngln â diffyg gweithgarwch economaidd a gofynnodd aelodau pam nad oedd unrhyw ddangosyddion i fesur ei effaith. Esboniodd swyddogion am fod y dangosyddion canlyniad yn cymryd diffyg gweithgarwch i ystyriaeth fod modd ei ddarllen hefyd yn y dangosyddion effaith. Roedd targed bennawd ar gyfer diffyg gweithgarwch yn ogystal â hynny a byddai gallu i gael effaith ar ddiffyg gweithgarwch yn ffactor fanteisiol wrth gyflwyno cais am gymeradwyo cynlluniau gweithredu. Cytunai aelodau ei bod yn bwysig i'r prif dargedau ymdrin yn fwy manwl â diffyg gweithgarwch er mwyn bod yn sicr o drin diffyg gweithgarwch economaidd.

**Blaenoriaeth 6**

- Roedd camgymeriad teipio ar dudalen 198. Y nifer glir ar gyfer swyddi ychwanegol yw 7,000 yn hytrach na 700.

**Blaenoriaeth 7**

- Roedd aelodau'n croesawu'r cyfeiriadau at gymorth technegol, ond yn dal i bryderu yngln â phryd yn union y bydd modd manteisio arno. Esboniodd swyddogion fod y mater hwnnw ar yr agenda i'w drafod ymhellach â'r Comisiwn am fod peth dryswch o hyd yngln â diffinio cymorth technegol. Er y gellid ôl-ddyddio cymorth technegol mewn egwyddor ni fyddai'n ddoeth mynd ati i gynnig cymorth nes penderfynu'n derfynol ar wariant cymwys.

- Cytunodd Ysgrifennydd y Cynulliad i roi adroddiad i'r Pwyllgor ar ddydd Mercher 29 Mawrth

ar ffyrdd eraill (e.e. nawdd NAW) o gynnig cymorth technegol buan i'r rhai sy'n darparu gwybodaeth a chymorth i gynigwyr. Roedd hyn hefyd yn rhywbeth y gallai'r Pwyllgor ystyried ei drafod â'r Comisiwn yn uniongyrchol ddydd Mercher. **[Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad]**

**Dyrannu Nawdd**

Cytunodd y Cadeirydd y byddai dadansoddiad Phil Williams o'r nawdd yn ddefnyddiol i aelodau ac y dylid ei ddosbarthu.

- Cydnabuwyd y byddai'n rhaid cwtogi ar y nawdd a roddir i rai rhannau o'r rhaglen er mwyn ei godi mewn rhannau megis datblygu cefn gwlad ac Ymchwil a Datblygiad. Serch hynny, mynegwyd pryder arbennig yngln â'r toriadau mewn meysydd megis rhwydwaith mewnol technoleg cyfathrebu gwybodaeth cyfathrebu (TCG), ynni adnewyddadwy a menywod yn cymryd rhan yn y gweithlu. Wrth drafod TCG, esboniodd swyddogion ei bod yn well ar y cyfan gan y Comisiwn fuddsoddi mewn rhaglenni refeniw'n hytrach na rhai cyfalaf (er y bu'n llai unplyg yn hynny o beth yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o Brydain). Oherwydd hyn, gofynnai am i holl faterion rhwydwaith mewnol gael eu gwahanu'n amlwg o dan flaenoriaeth 6 ac eithrio TGC a oedd i'w chysylltu â blaenoriaeth 2. Nid oedd y Comisiwn mor bleidiol i'r achos dros ynni a hynny o bosibl am fod modd defnyddio cynlluniau cyllido eraill yn y GE (e.e. Fifth Framework) i ariannu rhaglenni felly. Nodwyd hefyd y gellid cefnogi busnes at ddibenion gweithredu prosiect ynni adnewyddadwy o dan flaenoriaeth un. Yn achos menywod yn cymryd rhan yn y gweithlu, esboniwyd mai symud y mater i flaenoriaethau 1 a 2 oedd yn gyfrifol am y toriadau ymddangosol yn y maes hwnnw.

- Cydnabuwyd mor bwysig oedd datblygu sgiliau a chroesawyd y codiad ymddangosol yn y gyllideb hyfforddi. Serch hynny, gofynnai aelodau a oedd ffigyrau ar gael i ddangos sut yn union y bwriedid rhannu'r nawdd rhwng y cyflogedig a'r di-waith. (Roedd y Pwyllgor wedi gofyn am neilltuo 40 y cant o'r rhaglen ar gyfer meithrin sgiliau). Un anhawster yngln â darparu ffigyrau o'r math hwn yw y byddai cymaint yn dibynnu ar lwyddiant y ceisiadau. Er hynny, cytunodd Ysgrifennydd y Cynulliad i roi amcangyfrif bras i'r Pwyllgor o ganran y nawdd Amcan 1 y bwriedid ei wario ar ddatblygu pobl – a syniad o'r modd y bwriedid ei rannu rhwng y cyflogedig a'r di-waith er mwyn meithrin sgiliau ac ati**. [Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad]-**

- Lleisiai nifer o aelodau gryn bryder am sail y penderfyniadau ynglþn â rhannu arian rhwng blaenoriaethau. Cydnabuwyd nad oedd unrhyw fformiwla wrthrychol y gellid ei defnyddio o dan yr amgylchiadau na mesur o'r gwerth y gallai rhaglen ei ychwanegu cyn ei rhoi ar waith. Er croesawu'r holl waith dadansoddi a thrafod dyraniadau yr oedd y bartneriaeth wrthi'n ei wneud, pryderai aelodau fod profiad a hanes gwario'n dal yn ffactorau mor bwysig wrth ddod i benderfyniadau yngln â rhannu nawdd pan nad oedd cytundeb o fewn y bartneriaeth. Oherwydd y pryder hwn a diffyg gwybodaeth bendant am y meini prawf a ddefnyddiwyd i ddod

i benderfyniadau yngln â rhannu nawdd, roedd yn anodd iawn i’r Pwyllgor asesu a rannwyd yr arian yn briodol ai peidio.

2.4 Diolchodd y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor i bawb a gymerodd ran yn y broses am eu gwaith caled a’u hymroddiad.

**Eitem 3: Cronfeydd Strwythurol: Nawdd**

3.1 Y Cadeirydd a gyflwynodd y papur gan ddweud ei fod yn cynnwys data hanesyddol o raglenni’r GE a fyddai o gymorth i aelodau ddod i wybod yn well am y ffynonellau nawdd punt am bunt sydd ar gael iddynt. Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Mewn ymateb i gwestiwn yn holi pam yr oedd y ffigwr ar gyfer nawdd punt am bunt yn y sector cyhoeddus (£90m) gymaint yn fwy na’r cyfraniad o Ewrop (£68m), esboniwyd na chynigid nawdd punt am bunt bob amser ar sail 50:50, a bod sefydliadau’n aml yn cyfrannu mwy na 50%.

- Bu peth trafodaeth ar faint yn union o arian ychwanegol oedd ei angen ar y sector cyhoeddus er mwyn cyflenwi’r nawdd punt am bunt a ddeuai o Ewrop. Esboniodd Ysgrifennydd y Cynulliad fod y swm yn anodd ei amcangyfrif oherwydd materion megis gorgrog, dadymrwymiad a pha arian yn union sy’n ychwanegol. Ar y pwynt olaf hwn, cadarnhawyd mai elfen Ewropeaidd y nawdd yn hytrach na’r elfen ‘noddi bunt am bunt’ oedd i’w dangos fel un ychwanegol.

- Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cynulliad y cydymffurfid â meini prawf y GE ar gyfer diffinio elfen ychwanegol y nawdd, ar lefel Cymru (ac nid ar lefel Brydeinig yn unig fel a oedd yn ofynnol gan y GE).

- Cytunwyd bod noddi bunt am bunt yn fater y byddai’n rhaid i’r Pwyllgor ei ailystyried ym mis Mai er mwyn dod i wybod yn well am yr adnoddau a oedd ar gael at y dibenion hyn.
**[Gweithredu: Cadeirydd a’r Clerc]**

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

**Mawrth 2000**